CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN
COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FERCHER
14 Ebrill 2021
AM 7.30 TRWY ZOOM

YN BRESENNOL: Cyng I Roberts, P Roberts, R G Parry, G Parry, S Jones, H Eddings, E Law-Shui Nicholson, G Owen (Clerc),	
YMDDIHEURIADAU: Cyng D Rees (Cyngor Sir),Cyng N Roberts (Cyngor Sir), Cyng E Huws, Cyng J Earnshaw	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts. Dechreuodd y cyfarfod gyda distawrwydd 1 munud er cof am y Tywysog Philip. Cynigodd y Cadeirydd croeso I pawb yn cynnwys Jane Jones, Hospis Dewi Sant. Cafwyd cyflwyniad byr gan Jane ar yr uned newydd yng Nghaergybi
2	**DATGAN DIDDORDEB** – Cyng I Roberts eitem 7.2
3	**DERBYN COFNODION** Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 10.03.21 Cyng S Jones yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Y Fynwent** – Mae'r Cadeirydd a'r Cynghorydd R G Parry wedi cynnal cyfarfod yn y fynwent i drafod y llwybr newydd. Mae'n mynd i gostio rhwng 4 - 5 mil o bunnoedd. Cytunodd y cyngor i ohirio'r mater nes bod yr angen yn codi.
4.2	**Adroddiad Playsafety** - Dywedodd y Clerc fod Playquest wedi cytuno i ostwng y pris i £ 8600. Mae wedi eu hawdurdodi i fwrw ymlaen â'r gwaith.
4.3	**Cysgodfannau Bws** – Mewn llaw
4.4	**Willow Tunnel –** Mewn llaw
4.5	**Pont Hebron** – Mae'r Clerc wedi siarad â staff Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am y gwaith. Mae'r rhan fwyaf o'r graffiti wedi'i dynnu. Mae rhan o'r graffiti I'w weld o hyd ac maen nhw wedi cynnig paentio drosto. Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn iddynt baentio dros y gweddill.
	Llofnod…….Cadeirydd 12.05.21

4.6	**Anglesey Computer Solutions** - Cytunodd y cyngor i dderbyn yr adroddiad a baratowyd gan y cwmni
5	**ADRODDIAD y CADEIRYDD** – Dywedodd y Cadeirydd fod ganddo hen lyfrau sy'n cynnwys cofnodion y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y byddai'r Clerc yn casglu'r rhain (pan ganiateir yn dilyn cyfyngiadau Covid) ac yn trefnu iddynt gael eu rhoi yn archifau'r Cyngor Sir.
6	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Dim
7	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.1	**Anglesey Computer Solutions** – gweler 4.6
7.2	**Sedd Wag** – Mae'r Clerc wedi derbyn cais gan Ceri Griffiths. Cytunwyd i dderbyn y cais a chynnig swydd wag i'r ymgeisydd.
7.3	**Parc Solar -** Darllenwyd llythyr gan Hywel Hughes ar ran y grŵp sy'n gwrthwynebu'r cais yn gofyn i'r Cyngor Cymuned am eu cefnogaeth. Cytunwyd i gefnogi'r grŵp
7.4	**Gor-yrru Bryngwran -** Mae'r Clerc wedi derbyn cwyn ynglŷn â goryrru ym Mryngwran. Dywedodd y Cadeirydd fod y mater wedi'i gyfeirio at yr Heddlu. Bydd y Clerc yn gofyn i'r Cyngor Sir am bresenoldeb cynyddol y fan "Go Safe" Hefyd, y Clerc i gael pris am oleuadau sy'n fflachio.
8	**MATERION ERAILL**
8.1	**Cyflwr Lon Y Fynwent**. Dywedodd y Cynghorydd S Jones fod ei thad wedi llenwi'r tyllau yn y ffordd dros dro. Cytunwyd bod y Clerc yn gofyn am brisiau ar gyfer ail-wynebu ac yn gwneud cais i'r Cyngor Sir am grant.
9	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
9.1	Aelodaeth Unllais Cymru £143.00
9.2	Blaendal at paentio y cysgofannau bws £100
9.3	Blaendal matiau maes chwarae £3100.00
10	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
10.1	Polisi iaith y Cyngor
	Llofnod…….Cadeirydd 12.05.21